Coeden Materion

Bydd angen:

- un daflen fawr o bapur i bob grŵp o ddisgyblion. Bydd papur *flip chart* yn ddelfrydol.
- ysgrifbinnau

Tynnwch lun coeden ar daflen fawr o bapur neu gofynnwch i'r disgyblion wneud hyn. Ysgrifennwch y mater ar foncyff y goeden, er enghraifft, 'coed yn cael eu torri i lawr', 'gormod o ddatgoedwigo' neu 'anifeiliaid goedwig law yn colli eu cartrefi'. Mae angen i'r mater fod yn ddatganiad, nid cwestiwn.

Mae disgyblion yn ysgrifennu achosion y mater hwn ar wreiddiau'r goeden. Maent yn ysgrifennu canlyniadau'r rhain yn y canghennau, ac yn olaf yn tynnu ffrwythau yn hongian o'r goeden sy'n cynnwys atebion.

Sut i ddefnyddio coeden materion

Gall hyn i gyd cael ei wneud ar yr un pryd, neu gall fod amser rhwng yr achosion, canlyniadau ac atebion i ganiatáu mwy o ddysgu.

Gall y disgyblion lenwi'r goeden gyda chymaint o fanylion ag y gallant ar ddechrau'r pwnc, ac eto yn lliw arall ar y diwedd, gan ei gwneud yn hawdd gweld yr hyn y maent wedi'i ddysgu.

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Maint Cymru
Cyfnod Allweddol Dau





Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government